## Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2024

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar, ac fe’i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae’r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2024. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau’r costau tebygol.

**Eluned Morgan AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

04 Mehefin 2024

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

1.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989 (OS 1989/306) (“y Prif Reoliadau”).

1.2 Mae'r Prif Reoliadau yn caniatáu i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG (fel y bo'n gymwys) yng Nghymru godi ac adennill ffioedd am wasanaethau gofal iechyd perthnasol a ddarperir i ymwelwyr tramor nad ydynt yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig (DU), oni bai bod yr ymwelydd tramor, neu'r gwasanaeth y mae'n ei gael, yn destun esemptiad rhag ffioedd.

1.3 Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud i gysoni'r Prif Reoliadau â pholisi Llywodraeth y DU ynghylch y Gordal Gofal Iechyd Mewnfudo (IHS) a myfyrwyr tramor o'r Undeb Ewropeaidd (UE), y Swistir, Norwy, Gwlad yr Iâ a Lichtenstein a'u dibynyddion ("myfyrwyr a dibynyddion o Ewrop").

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae'r offeryn hwn yn cael ei wneud o dan adran 124 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (Deddf 2006), sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar gyfer codi ac adennill ffioedd gan bersonau nad ydynt yn “preswylio fel arfer” yn y DU am wasanaethau'r GIG.

3.2 Mae'r offeryn hefyd yn cael ei wneud o dan adran 203(9) a (10) o Ddeddf 2006 ac mae'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

### 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae'r Rheoliadau yn cael eu gwneud i gysoni darpariaethau'r Prif Reoliadau ynghylch myfyrwyr a dibynyddion o Ewrop â pholisi Llywodraeth y DU ynghylch yr IHS.

4.2 Mae'r IHS yn ffi safonol a delir gan ymfudwyr dros dro i'r DU a ddefnyddir i ariannu eu gofal gan y GIG ac sy'n caniatáu iddynt gael mynediad at ofal y GIG ar sail debyg i breswylydd yn y DU. Rhaid i'r mwyafrif o ymwelwyr tramor sydd yma am fwy na chwe mis dalu'r IHS fel rhan o'u cais am fisa. Rhaid i aelodau o'r teulu sy'n dod gyda nhw hefyd dalu ffi IHS ar wahân.

4.3 Mae Llywodraeth Cymru yn cael cyfran Barnett o dderbyniadau'r DU o dan yr IHS, a ddarparodd yn 2023/24 ychydig dros £86m o gyllid ar gyfer y GIG yng Nghymru.

4.4 Mae rheoliad 4F o'r Prif Reoliadau yn darparu ar gyfer esemptiad rhag ffioedd am ofal iechyd yng Nghymru i ymwelwyr tramor sydd wedi talu'r IHS.

4.5 Ers 1 Ionawr 2022 (ar gyfer myfyrwyr o'r UE a'r Swistir) ac 1 Ionawr 2024 (ar gyfer myfyrwyr o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE)), mae myfyrwyr a dibynyddion o'r UE, yr AEE neu'r Swistir sydd mewn addysg lawnamser ac sydd yn y DU am fwy na chwe mis wedi bod yn gymwys i gael ad-daliad o'r IHS. Ar ôl cael eu had-dalu, yn y rhan fwyaf o achosion, ni all y myfyrwyr a'r dibynyddion ond cael mynediad at ofal iechyd angenrheidiol gan ddefnyddio eu Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC).

4.6 Ystyrir bod gofal iechyd angenrheidiol yn cynnwys pob triniaeth sy'n angenrheidiol yn feddygol cyn eu dyddiad dychwelyd arfaethedig, ac eithrio pan fo ffioedd hefyd yn gymwys i breswylwyr yng Nghymru, megis ffioedd deintyddol.

4.7 Mae myfyrwyr a dibynyddion o Ewrop yn cael mynediad at hyn fel dinasyddion wedi'u hyswirio yn eu gwledydd eu hunain o dan y confensiynau nawdd cymdeithasol priodol sydd ar waith rhwng y DU a'u gwledydd. Ni all myfyrwyr o wledydd heblaw'r UE, yr AEE a'r Swistir ("Gwledydd Gweddill y Byd") wneud cais am ad-daliad o'r IHS.

4.8 Disgwylir i fyfyrwyr a dibynyddion o Ewrop, sydd wedi cael ad-daliad o'u IHS, orfod talu am driniaeth a geir yn ychwanegol at yr hyn y darperir ar ei gyfer gan y confensiynau nawdd cymdeithasol perthnasol.

4.9 Mae rheoliad 4(1)(a)(iii) o'r Prif Reoliadau yn darparu ar gyfer esemptiad rhag ffioedd am ofal iechyd yng Nghymru i fyfyrwyr tramor (a'u teuluoedd) sy'n dilyn cwrs llawnamser mewn addysg sy'n para mwy na 6 mis.

4.10 Mae hyn yn groes i'r sefyllfa a nodir ym mharagraffau 4.5 i 4.8 uchod ynghylch myfyrwyr a dibynyddion o Ewrop sydd wedi cael ad-daliad o'u IHS. Mae rheoliad 4(1)(a)(iii) yn caniatáu i fyfyrwyr a'u teuluoedd gael triniaeth lawn ar y GIG ar yr un sail â phreswylydd yng Nghymru, ni waeth a ydynt wedi cael ad-daliad ai peidio.

4.11 Felly, mae potensial i fyfyrwyr a dibynyddion o Ewrop gael ad-daliad o'u IHS a pharhau i fod yn gymwys i gael triniaeth lawn gan y GIG yn ddi-dâl – yn hytrach na gofal iechyd angenrheidiol yn unig.

4.12 Mae rheoliad 4(1)(a)(iii) hefyd yn darparu ar gyfer esemptiad rhag ffioedd am ofal iechyd yng Nghymru i fyfyrwyr tramor (a'u teuluoedd) sy'n dilyn cwrs astudio llawnamser a ariennir yn sylweddol gan Lywodraeth y DU.

4.13 Gan nad yw'r IHS yn debygol o gael ei dalu gan unrhyw un sy'n ymweld â'r DU am lai na chwe mis, mae cael gwared ar yr esemptiad yn golygu, oni bai bod esemptiad arall yn y Prif Reoliadau yn gymwys, y bydd pob myfyriwr tramor o Ewrop sy'n astudio cwrs llawnamser a ariennir yn sylweddol gan Lywodraeth y DU sy'n para llai na chwe mis yn dod yn atebol i dalu ffi am ofal iechyd nad yw'n angenrheidiol ac y bydd pob myfyriwr tramor o'r tu allan i Ewrop sy'n astudio cwrs llawnamser a ariennir yn sylweddol gan Lywodraeth y DU sy'n para llai na chwe mis yn

dod yn atebol i dalu ffi am ofal iechyd nad yw'n argyfwng. Mae hyn yn cysoni sefyllfa myfyrwyr o'r fath â sefyllfa myfyrwyr tramor sy'n astudio cyrsiau yng Nghymru am lai na chwe mis nad ydynt yn cael eu hariannu gan Lywodraeth y DU. Yn ymarferol, mae Llywodraeth Cymru yn deall ei bod yn annhebygol y bydd yna fyfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru y byddai'r meini prawf o astudio ar gwrs a ariennir yn sylweddol gan Lywodraeth y DU sy'n para llai na chwe mis yn gymwys iddynt.

4.14 Felly, mae Llywodraeth Cymru yn ceisio cael gwared ar reoliad 4(1)(a)(iii) o'r Prif Reoliadau.

## 5. Ymgynghori

5.1 Nid oes dyletswydd statudol i ymgynghori cyn gwneud y Rheoliadau. Bernir nad yw'r diwygiadau arfaethedig yn gofyn am ymgynghoriad gan nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw ddisgresiwn o ran polisi IHS a chan fod y newidiadau yn cael eu hystyried yn hanfodol i gysoni'r Prif Reoliadau â pholisi'r DU.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 6. Yr opsiynau

6.1 Mae dau opsiwn wedi cael eu hystyried:

- **Opsiwn 1:** Gwneud dim, cadw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989 (OS 1989/306) fel y maent mewn grym ar hyn o bryd.
- **Opsiwn 2:** Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989.

**Opsiwn 1: Gwneud dim**

6.2 Byddai'r opsiwn hwn yn cadw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989 (OS 1989/306) ("y Prif Reoliadau") fel y maent mewn grym ar hyn o bryd, gan beidio â'u diwygio i'w cysoni â pholisi IHS Llywodraeth y DU ynghylch myfyrwyr o Ewrop.

**Costau a manteision**

6.3 Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif bod nifer y myfyrwyr a dibynyddion o Ewrop yng Nghymru a allai fod wedi cael ad-daliad IHS yn llai na 600.[1]

6.4 Disgwylir i'r gyfran o'r myfyrwyr a'r dibynyddion hyn sy'n debygol o fod angen triniaeth yn ychwanegol at y gofal iechyd angenrheidiol y gallant ei gael yn rhad ac am ddim o dan y Cytundebau Nawdd Cymdeithasol gyda'u gwledydd fod yn fach.

6.5 Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif bod nifer y myfyrwyr tramor sy'n astudio am lai na chwe mis yng Nghymru ar gyrsiau a ariennir yn sylweddol gan Lywodraeth y DU yn fach iawn (os oes rhai o gwbl).

6.6 Felly, mae'r gost i'r GIG yng Nghymru o ddarparu triniaeth o'r fath os nad yw'r Prif Reoliadau yn cael eu diwygio yn isel. O ganlyniad, mae'r gost bosibl i'r GIG os na chaiff y Prif Reoliadau eu diwygio i'w cysoni â pholisi IHS yn hyn o beth yn isel.

6.7 Fodd bynnag, mae'r gwrthdaro rhwng polisi Llywodraeth y DU ac esemptiad 4(1)(a)(iii) o'r Prif Reoliadau yn annymunol gan y gallai danseilio'r gofyniad i dalu'r IHS ar lefel Llywodraeth y DU, oherwydd y gallai myfyriwr sy'n dod i Gymru fod yn fwy tebygol o geisio ad-daliad o'r IHS.

**Opsiwn 2: Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989.**

[1] Ffigur yn seiliedig ar nifer y myfyrwyr o Ewrop a gofrestrodd mewn addysg lawnamser yng Nghymru yn 2021/22 (Tabl 28 - Myfyrwyr Addysg Uwch sy'n hanu o'r tu allan i'r DU yn ôl darparwr Addysg Uwch a gwlad breswyl 2014/15 i 2021/22 | Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch) a data heb eu cyhoeddi gan Lywodraeth y DU ynghylch cyfran y myfyrwyr o Ewrop yn y DU sy'n cael ad-daliad o'u IHS.

6.8 Byddai'r opsiwn hwn yn diwygio'r Prif Reoliadau i'w cysoni â pholisi IHS Llywodraeth y DU ynghylch myfyrwyr o Ewrop.

**Costau a manteision**

6.9 Prif fantais yr opsiwn hwn yw cysoni'r Prif Reoliadau â pholisi IHS Llywodraeth y DU a chael gwared ar y posibilrwydd o danseilio'r IHS ar lefel Llywodraeth y DU.

6.10 Am y rhesymau a nodir ym mharagraffau 6.3 i 6.6 uchod, yn gyntaf mae nifer y myfyrwyr a'u dibynyddion o Ewrop, ac yn ail nifer y myfyrwyr tramor sy'n astudio am lai na chwe mis yng Nghymru ar gyrsiau a ariennir yn sylweddol gan Lywodraeth y DU, a fyddai'n cael mynediad at ofal iechyd y mae ffi'n daladwy amdano pe bai'r Prif Reoliadau yn cael eu diwygio yn debygol o fod yn isel. Felly, mae'r arbedion i'r GIG o allu codi tâl am driniaeth o'r fath yn fach iawn.

## 7 Asesu'r gystadleuaeth

7.1 Ni ddisgwylir i'r Rheoliadau effeithio ar gystadleuaeth yng Nghymru na chystadleurwydd cwmnïau yng Nghymru.

## 8 Adolygu ar ôl gweithredu

8.1 Nid oes angen adolygiad ar ôl gweithredu gan mai'r newidiadau a wneir gan y Rheoliadau yw cysoni polisi Llywodraeth Cymru â pholisi Llywodraeth y DU.